

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mai 2018

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: <ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Fframwaith PPhl) 	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg):</i>																
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Ruth Akers																
Dyddiad:	Mai 2018																
Arweinydd polisi:	Ruth Akers																
Manylion cyswllt:	0300 0622436																
Math o Raglen/Prosiect <table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%; border: none;"><input checked="" type="checkbox"/> Polisi</td> <td style="width: 50%; border: none;"><input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Deddfwriaeth</td> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Grant</td> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Gwasanaethau</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Newid busnes</td> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Contractau, tendrau</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Seilwaith</td> <td></td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf</td> <td></td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> TGCh</td> <td></td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)</td> <td></td> </tr> </table> <div style="border: 1px solid black; height: 40px; margin-top: 5px;"></div>		<input checked="" type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen	<input type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad	<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau	<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau	<input type="checkbox"/> Seilwaith		<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf		<input type="checkbox"/> TGCh		<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)	
<input checked="" type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen																
<input type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad																
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau																
<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau																
<input type="checkbox"/> Seilwaith																	
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf																	
<input type="checkbox"/> TGCh																	
<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)																	
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).																	
O dan £25k	£25k - £49k	£50 - £249K	£250K - £1miliwn	Dros £1miliwn													
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>													
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg? <p>Er nad oes unrhyw gostau wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg, cyfrifwyd fod cost y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Eirioli dros £1m, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at £550,000 i dalu am yr elfen cynnig gweithredol fel a nodir yn y Fframwaith PPhl, ac Awdurdodau Lleol yn darparu gweddill y cyllid.</p> <p>Mae'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Fframwaith PPhl) yn nodi'r canlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl mewn perthynas â gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n nodi fframwaith y gall darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu ei ddefnyddio i sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd, gan eu galluogi i ddangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a</p>																	

phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth neu weithio tuag wneud cynnig gweithredol o ran gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Un elfen o'r dull gweithredu cenedlaethol yw'r cynnig gweithredol a nodir yn y Fframwaith PPhI.

Cafodd y Fframwaith PPhI ei ddefnyddio gan y Grŵp Technegol Eiriolaeth i fapio'r rheoliadau newydd a chanllawiau cysylltiedig fel rhan o gam 3 o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

Hefyd, bydd angen i ddarparwyr gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion. Rhaid i nifer o bolisiau a gweithdrefnau fod yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y canllawiau'n egluro bod y polisiau a'r gweithdrefnau mewn fformat sy'n hygyrch i'r unigolyn. Os mai Cymraeg yw iaith gyntaf unigolyn yna efallai y bydd angen darparu'r polisiau a'r gweithdrefnau hynny yn Gymraeg.

Gall y gofynion hyn arwain at gostau ychwanegol i ddarparwyr. Fodd bynnag, mae'r union gostau'n anodd i'w hamcangyfrif gan y byddant yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar lefelau'r angen am y Gymraeg a adnabyddir o fewn y gwasanaeth, galluoedd presennol staff a gyflogir yn y gwasanaeth i ddiwallu'r angen hwnnw, lefel ddilynol y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd sy'n ofynnol, neu anghenion o ran hyfforddiant.

Enghraifft o gost defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yng Nghymru, o fis Hydref 2017, yw o £28 yr awr.¹ Fodd bynnag, mae'n debygol y byd y gost hon yn amrywio gan ddibynnu ar y cwmni a ddefnyddir a faint o gyfieithu ar y pryd sy'n ofynnol.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr ac arnynt angen cymorth. Mae'n trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, gan hybu annibyniaeth pobl i roi llais a rheolaeth iddynt. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen:

- y Ddeddf ei hun
- rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf
- codau ymarfer/canllawiau statudol.

Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

¹ Cymeryd o <https://bostico.uk/interpreter/wales.htm>, 18 Hydref 2017

Bydd y cod ymarfer yn cefnogi'r broses o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae a wnelo'r Asesiad o'r Effaith a geir yma â'r Fframwaith PPHI sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymarfer ar gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth dan Ran 10 a rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) y cyfeirir ati uchod.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Mae'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau (y Fframwaith) yn adeiladu ar sylfeini, ac wedi'i groesgyfeirio at, y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003) gwreiddiol y mae'n eu disodli. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (Awst 2014).

Mae'r safonau hyn wedi cael eu cyfuno'n safonau a datganiadau o ganlyniadau y ceir gwybodaeth fanylach ar eu cyfer wedyn o ran sut y gall comisiynwyr a darparwyr eiriolaeth ddangos/mesur sut y maent yn eu cyflawni.

Mae cyswllt rhyngddynt a'r Datganiad Llesiant cyffredinol (Atodiad A) ac maent yn ategu'r datganiad hwnnw. Byddant hefyd yn dangos sut y bydd awdurdodau lleol yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau llesiant trwy gael mynediad at wasanaethau eirioli, a'r hyn y mae llesiant yn ei olygu, e.e. 'Sicrhau hawliau', 'Amddiffyn rhag cam-drin ac esgeuluso.

Mae'r Fframwaith PPHI hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion o ran gofal a chymorth sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli ynghylch yr hyn y mae ganddynt hawl iddo, a sut y gallant fod yn rhan o'r broses o ddatblygu a gwerthuso'r gwasanaethau.

Caiff y canlyniadau a ddymunir eu nodi ar ffurf tabl yn y Fframwaith PPHI a bydd cymhwyso'r canllawiau hyn yn gywir yn gwella ansawdd a chysondeb gwasanaethau eirioli a ddarperir ar hyn o bryd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Fframwaith PPHI yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigolion. Un o egwyddorion allweddol y cynnig gweithredol yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae'r angen am eiriolwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, fel y mae'r angen am gyfieithwyr ar y pryd ar gyfer plant/pobl ifanc nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Mae gwasanaethau eirioli'n darparu ac mae angen iddynt barhau i ddarparu

gwasanaeth trwy amrywiaeth o ieithoedd a adlewyrchir yn Natganiad Canlyniad 3 yn y Fframwaith.

Os nad oes eiriolwyr Cymraeg ar gael gallai hyn achosi anfantais o ran y gwasanaeth y mae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael wrth fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mater o angen ac nid dim ond dewis yw dewis iaith rhywun.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – [Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr?](#)

Mae'r Fframwaith PPHI wedi'i fwriadu i gefnogi Mwy Na Geiriau... y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar y gwerthoedd y dylid trin pob unigolyn ag urddas a pharch ac y dylai pob unigolyn gael asesiadau cywir a gofal priodol. Mae'r strategaeth yn amlygu mor bwysig ydyw bod rhywun yn cael gofal yn ei iaith gyntaf, gan nodi bod "defnydd o'r Gymraeg yn fwy na mater o ddewis yn unig, ei fod hefyd yn fater o angen. Mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl agored i niwed a'u teuluoedd gael mynediad at wasanaethau yn eu mamiaith, megis pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu sydd wedi cael strôc ac sydd o bosib wedi colli eu hail iaith, neu blant ifanc iawn sydd efallai ond yn siarad Cymraeg".

Adlewyrchir hyn yn Natganiad Canlyniadau Eiriolaeth 3 yn y Fframwaith, yn ogystal ag Atodiad A o'r Fframwaith sy'n ymwneud â'r datganiad llesiant ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Mae hyn yn golygu bod darparwyr gwasanaethau'n darparu gwasanaeth neu'n gweithio tuag wneud cynnig gweithredol o ran gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mewn perthynas â gwybodaeth ar gyfer unigolion, ceir gofyniad bod yr arweiniad i'r gwasanaeth ar gael mewn iaith briodol, mewn arddull a fformat priodol, ac yn cael ei gyflwyno mewn modd priodol, gan roi sylw i ddatganiad diben y gwasanaeth.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n egluro sut y dylent hwy fel sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ysgogydd i wella darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol neu sydd wedi'u contractio ganddynt. Lle nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdod lleol, nod y Fframwaith yw bod dull cymesur yn cael ei ddefnyddio wrth ateb gofynion o ran y Gymraeg, gan roi'r pwyslais ar yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau eirioli.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Ar ddarparwyr gwasanaethau a'r corff rheoleiddio gwasanaethau y bydd y Fframwaith PPHI yn effeithio'n bennaf, o ran cyflawni eu swyddogaethau, ac mae wedi'i fwriadu i effeithio'r un fath ar yr holl ddarparwyr gwasanaethau, ni waeth beth fo'u hiaith. Felly ni fydd unrhyw effaith negyddol benodol ar y Gymraeg.

Mae'r angen am eiriolwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, fel y mae'r angen am gyfieithwyr ar y pryd ar gyfer plant/pobl ifanc nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae gwasanaethau eirioli'n darparu ac mae angen iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd a adlewyrchir yn Natganiad Canlyniad 3 yn y Fframwaith.

Rhaid i brosesau comisiynu sicrhau bod yr holl Wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn cydymffurfio â'r gofynion o ran y Gymraeg, a bod darpariaeth yn Gymraeg ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yn unol â'u dewis iaith.

Un awgrym a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad oedd y gallai brofi'n ddefnyddiol cofnodi enghreifftiau o achosion/arfer da gan wasanaethau a chomisiynwyr Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o ran helpu i greu gwasanaethau dwyieithog fel norm, gyda hynny'n helpu i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn unol â'u dewis iaith beth bynnag fo'u hamgylchiadau neu eu lleoliad.

.

Dylid sicrhau cysondeb yn unol ag Erthygl 30 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn hefyd.

Mae angen i ddarpariaeth gofal cymdeithasol o ansawdd da adlewyrchu a hybu'r dull hwn fel yn [Mwy na geiriau – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol](#)

Nid oes effeithiau cadarnhaol na negyddol mawr yn deillio o'r polisi hwn; fodd bynnag, mae gennym eisoes gefnogaeth gref i ddewis iaith a defnyddio'r Gymraeg a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Y rhanddeiliaid yw'r Awdurdod Lleol, Darparwyr Gwasanaethau Eirioli a'r rhai a gomisiynir ganddynt.

Mae'r Fframwaith PPHI yn nodi'r canlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl mewn perthynas ag eiriolaeth plant a phobl ifanc. Mae'n nodi fframwaith y gall darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu ei ddefnyddio i sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd, gan eu galluogi i ddangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

Dan y Datganiad Llesiant mae'n amlygu bod gan blentyn neu berson ifanc hawl i gael gofal a chymorth yn y Gymraeg os oes angen hynny arno/arni.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n egluro sut y dylent hwy fel sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ysgogydd i wella darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol neu sydd wedi'u gcontractio ganddynt. Lle nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdod lleol, nod y Fframwaith yw bod dull

cymesur yn cael ei ddefnyddio wrth ateb gofynion o ran y Gymraeg, gan roi'r pwyslais ar yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau eirioli.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod?

Amherthnasol

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Bydd y Fframwaith yn cael ei ddiwygio fel rhan o'r broses yn dilyn yr Ymgynghoriad. Yn y cyfamser mae darparwyr Gwasanaethau wedi cael eu cynghori i barhau i ddefnyddio'r fersiwn yr ymgynghorwyr yn ei chylch.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Caiff y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol eu tanategu gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n datgan bod rhaid i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn rydym yn disgwyl y bydd unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau sydd o fewn cwmpas gwasanaethau eirioli a reoleiddir yn gallu cael mynediad yn rhesymol at wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg, os byddant yn dymuno.

Dan y Ddeddf rhaid i'r asesiad o anghenion y boblogaeth adnabod yr ystod a lefel o wasanaethau (gan gynnwys eiriolaeth) sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny gan gynnwys sut y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy orfod nodi'n benodol sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, dylai fod effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth Gymraeg.

Bydd gofyniad estynedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau mewn perthynas â darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion unigolion o ran iaith. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ddarparwyr nodi anghenion cyfathrebu unigolyn fel rhan o'u penderfyniad a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer yr unigolyn. Mae hefyd yn cynnwys sefydlu mesurau i sicrhau bod unigolion yn gallu cyfathrebu mewn modd ystyrion. Mae hyn yn ymwneud â'r iaith y mae ar unigolyn angen ei defnyddio a dewis iaith yr unigolyn, a fyddai'n cynnwys Cymraeg.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Effeithiau negyddol:

Dim

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:	
Nid oes effeithiau cadarnhaol na negyddol mawr yn deillio o'r polisi hwn; fodd bynnag, mae gennym eisoes gefnogaeth gref i ddewis iaith a defnyddio'r Gymraeg a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	
Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?	Cadarnhaol: <input type="checkbox"/> Negyddol: <input type="checkbox"/> Niwtral: <input checked="" type="checkbox"/> Anhysbys: <input type="checkbox"/>
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol <input checked="" type="checkbox"/> 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau <input type="checkbox"/> 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru <input type="checkbox"/> 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno <input type="checkbox"/>
Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:	
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:	
Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?	
<p><u>Ymgynghori</u></p> <p>Cynhaliwyd un Gweithdy i gefnogi'r broses ymgynghori. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol y dewis i gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg; fodd bynnag cyn i'r Gweithdy gael ei gynnal roeddem yn ymwybodol na fyddai unrhyw siaradwyr Cymraeg yn bresennol.</p> <p>Y cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen Ymgynghori oedd:-</p> <p>Hoffem glywed eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar</p> <p>i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.</p> <p>Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?</p>	
CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO	
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?	
Yn dilyn ymgynghoriad 12 wythnos ynghylch y Fframwaith (Mawrth – Mehefin 2017)	

roedd cytundeb cyffredinol y dylai plant a phobl ifanc allu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith. Pwysleisiodd mwy nag un sefydliad ei bod yn bwysig nodi bod her sylweddol o ran recriwtio eiriolwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rôl yn dda.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Mae'r Cyrff Arweiniol Rhanbarthol yn casglu data sydd wedyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn monitro'r effeithiau parhaus.

Fel rhan o'r broses fonitro, gall fod yn ddefnyddiol hefyd cofnodi enghreifftiau o achosion/arfer da gan wasanaethau a chomisiynwyr Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o ran helpu i greu gwasanaethau dwyieithog fel norm, gyda hynny'n helpu i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn unol â'u dewis iaith beth bynnag fo'u hamgylchiadau neu eu lleoliad.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Mae'r Cyrff Arweiniol Rhanbarthol yn casglu data sydd wedyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn monitro'r effaith ac yn gwerthuso fel y bo angen

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.

Enw: Ruth Akers

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Dyddiad (au):

30 May 2018

Llofnod:

Ruth Akers

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH BERCHENNOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnod *Alistair Davey*

Dyddiad 30 Mai 2018

Llofnod
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnod
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnod
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu